



YN ÔL TRAED WILLIAM GILBERTSON

Pan fyddwch yn dilyn y daith gerdded hon, gofalwch eich bod wedi paratoi yn addas trwy ddilyn y Côd Cefn Gwlad a fydd yn eich helpu i ymweld yn ddiogel a chadw ein hamgylchedd a'n cymunedau mewn cof. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.naturalresources.wales/countrysidecode



**CALON DDRAMATIG
CYMRU**

Castell-nedd Port Talbot

dramaticheart.wales

LLWYBR GILBERTSON

Man cychwyn: Croes Pontardawe, Canol Tref Pontardawe

Hyd: 2 filltir

Amser: 1-2 awr

Parcio: Dilynwch yr arwyddion brown o'r A4067 i barcio ym Maes Parcio'r Ffordd Osgoi. Bydd arwyddion yn y maes parcio yn dangos y llwybr cerdded i'r Groes. Cymrwch ofal wrth groesi'r ffordd i mewn i Gwm Du.

Bwyd a Lluniaeth: Mae amryw o fanwerthwyr a chaffis annibynnol ardderchog yn nhref Pontardawe.

Diwydiannwr nodedig oedd William Gilbertson, y rhoddir iddo'r clod am sicrhau twf y diwydiant cynhyrchu dur a thunplat yn lleol gan arwain, yn y pen draw, at sefydlu Gwaith Dur enwog Port Talbot. Ar y daith gerdded hon byddwch yn mynd am dro o amgylch ei ystâd a fu unwaith yn ysblennydd.

Ar y daith gerdded hon, fe welwch olygfeydd ar draws Cwm Tawe, a oedd yn llawn diwydiant ar un adeg ond sydd bellach wedi'i hawlio'n ôl gan natur.

W Gilbertson a'i Gwmni oedd perchnogion Gwaith Tunplat Pontardawe. Prynwyd y gwaith yn 1860 a'i ddatblygu'n fusnes sylweddol. Erbyn dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf cyflogid y mwyafrif o boblogaeth oed gwaith tref Pontardawe yn y gwaith Tunplat. Yn 1900, datblygodd William Gilbertson safle gwaith dur yn nocioau Port Talbot, safle sydd bellach yn gartref i Waith Dur dramatig TATA.

Ar y llwybr hwn, byddwch yn dilyn yn ôl traed William Gilbertson ei hun o amgylch yr ystâd lle'r oedd yn byw yn nhref Pontardawe.





Y LLWYBR

Gan ddechrau yn y Groes, Pontardawe (gyferbyn â Gwesty'r Dillwyn Arms) ewch draw i'r coed yng Nghwm Du a dilyn y llwybr wrth ochr yr afon am ryw hanner milltir. Cerddwch yn bwyllog gan gadw eich llygaid ar agor am y gwahanol fathau o fywyd gwylt sydd i'w gweld ar hyd yr afon. Pan gyrhaeddwch y bont werdd, trowch i'r chwith (cyn croesi) a dringo'r grisiau tuag at blanhigfa Glanrhyd.

Ar y top, byddwch yn cyrraedd rhodfa hen Ystâd Gilbertson. Trowch i'r dde a dilyn y lôn, gan gadw eich llygaid ar agor am fywyd gwylt. Wrth i'r lôn ddechrau gwyro, ewch i'r dde ac i lawr i'r olygfan **1**. O'r fan hon gallwch weld ystâd tai newydd Gilbertson (a gafodd ei henwi gan ysgol leol) ar draws y dyffryn. Trowch yn ôl a dilyn yr un llwybr yn ôl at y rhodfa. Daliwch ati i ddilyn honno o amgylch y safle. Edrychwch i'r dde ac fe welwch olion gardd furiog Gilbertson **2** lle bu Arthur Gilbertson yn treulio llawer o'i amser rhydd. Ymhellach ar hyd y lôn fe welwch y panel dehongli ger safle'r hen blasty **3**. Ychydig ymhellach draw, gallwch weld olion y stablau **4** a'r pwll nofio awyr agored cyntaf yng Nghymru **5**.

O droi i'r chwith yma gallwch ddilyn y lôn fach i safle'r hen gyrtiau tenis **6** sydd bellach yn ystafell ddosbarth yn y goedwig ac yn llecyn delfrydol ar gyfer picnic yn y coed. Dilynwch y lôn i'r dde ac yn ôl at y rhodfa. Trowch i'r dde i ymweld â'r pwll dŵr a grëwyd yn nyddiau Gilbertson. Yn ôl ar y rhodfa, gallwch ei dilyn yn ôl at y groesffordd, troi i'r dde i Heol Glanrhyd a dilyn honno i lawr y rhiw.

Ychydig i lawr y rhiw fe welwch Capel **8** sydd bellach wedi'i drawsnewid yn eiddo preswyl. Capel preifat oedd hwn yn wreiddiol, a adeiladwyd gan Arthur Gilbertson, ac o'r ffordd gallwch weld ei garreg fedd, sy'n sefyll ar wahân i'r cerrig beddi eraill ar y safle. Dilynwch y ffordd i lawr y rhiw a throï i'r chwith i ddychwelyd i'r man cychwyn.

MANNAU DIDDOROL

1 Golygfan

Mae'r fainc hon a osodwyd gan wirfoddolwyr yn llecyn hyfryd i gael seibiant a lluniaeth a mwynhau'r olygfa ar draws y dyffryn a thrwy'r coetir.

2 Gardd Furiog

Roedd Arthur Gilbertson yn arddwr brwd a threuliai lawer o'i amser rhydd yn trin ei blanhigion yn yr ardd furiog a'r tai gwydr. Ni ellir mynd i'r ardd furiog, sydd wedi gordyfu bellach, am resymau diogelwch. Gellir gweld gweddillion diddordeb angerddol Arthur Gilbertson mewn planhigion ar hyd y safle, lle ceir nifer o rywogaethau o goed anffordorol, gan gynnwys coed Pinwydd yr Alban, coed Cedrwydd a Phinwydd Chile (cas gan fwnci).

3 Tir y plasty

Mae'r panel dehongli ger safle'r hen blasty yn dangos lluniau o sut olwg fyddai wedi bod ar y tir. Fodd bynnag, ers marwolaeth Arthur Gilbertson yn 1906, defnyddiwyd y plasty at sawl diben, gan gynnwys ysbyty cynorthwyol yn ystod y rhyfel, cyn cael ei droi'n fflatiau ynghanol y 1960au. Esgeuluswyd yr adeilad ar ôl hynny a chafodd ei ddymchwel ymhen amser.

4 Stablau

Yn unol ag arferion cyffredin y dydd, roedd y teulu Gilbertson yn cadw ceffylau ar yr ystâd ar gyfer cludiant a hamdden, yn enwedig polo.

5 Pwll nofio

Mae'r pwll nofio awyr agored cyntaf yng Nghymru i'w weld yma, wedi'i gloddio a'i gau â ffens. Mae modd gweld llawer o'r teils o hyd ar waliau'r pwll tra bo'r llawr sment ar lethr yn dangos rhediad serth at system ddraenio fach. Mae Sycamorwydden fawr yn ymgodi uwchben y pwll ac wedi dechrau torri wal y pwll wrth iddi dyfu.

6 Cyrtiau tenis

Yn rhannol yn sgîl eu cyfoeth, roedd teulu Gilbertson yn gallu mwynhau llawer o weithgareddau hamdden gan gynnwys tenis, oedd yn cael ei chwarae ar dir yr ystâd. Mae'r cyrtiau bellach wedi gordyfu ac wedi eu haddasu'n ystafell ddsbarth yn y goedwig at ddefnydd y gymuned ac ysgolion.

7 Y Pyllau

Fel rhan o'r ystâd wreiddiol, roedd gan teulu Gilbertson ddau bwl dŵr lle byddent yn ymlacio ac yn mwynhau gwyllo'r elyrch a'r hwyaid yn nofio. Daeth llaid i lenwi'r pyllau dros y blynyddoedd a'u gwneud yn amhosibl eu hadnabod tan yn ddiweddar. Bellach, diolch i waith gwirfoddolwyr lleol, mae'r prif bwl wedi cael ei adfer a'i gysylltu â safle'r ail bwl sy'n dal i fod yn gynefin gwylptir.

8 Y Capel

Cafodd y capel ar Heol Glanrhyd ei adeiladu gan Arthur Gilbertson yn gapel preifat ar gyfer cyfeillion y teulu a gweithwyr ei ddiwydiant. Cynhelid gwasanaethau wythnosol i bobl leol yn y capel, a oedd yn gallu dal 300. Ers marwolaeth Gilbertson, trowyd y capel yn eiddo preswyl preifat ond mae bedd Arthur Gilbertson i'w gweld o'r ffordd, wedi'i gosod ar wahân i'r cerrig beddi eraill ar y safle.

